

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>	
<b>PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO</b>	<b>PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE</b>	
<b>DYDD LLUN, 17 MEHEFIN 2013 am 1.00 o'r gloch</b>	<b>MONDAY, 17 JUNE, 2013 at 1.00 p.m.</b>	
<b>YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI</b>	<b>COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI</b>	
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752 516</b>	<b>Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **Annibynnol / Independent**

Jeffrey M.Evans, D R Hughes (**Cadeirydd/Chair**), W T Hughes, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas

### **Llafur / Labour**

Raymond Jones

### **Plaid Cymru / The Party of Wales**

Carwyn Jones, Alun W Mummery (**Is-Gadeirydd/Vice-Chair**), Dylan Rees a Nicola Roberts

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members** (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)

Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)

# R H A G L E N

## 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

## 2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2013.

## 3 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR** (Tudalennau 3 - 18)

- Diweddariad cyffredinol ar eu rhaglen moderneiddio/trawsnewid.
- Iechyd Cyhoeddus – Materion Diogelu Iechyd (Cyflwyniad ynghlwm)
- Diweddariad mewn perthynas ag Ardaloedd Lleol

## 4 **CYTUNDEB ADRAN 33 AR GYFER Y GWASANAETH ARBENIGOL PLANT** (Tudalennau 19 - 26)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 5 **DIOGELU OEDOLION – SEFYDLU FFRAMWAITH STRATEGOL AR GYFER GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 27 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion).

## 6 **ENWEBU AELOD I WASANAETHU AR Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 39 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

## 7 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Iau 25 Gorffennaf, 2013 am 2.00 p.m.

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2013

<b>YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorwyr Jeff Evans, Derlwyn R. Hughes, W.T. Hughes, Carwyn Jones, Raymond Jones, R.O. Jones, A.W. Mummery, Dylan Rees, Nicola Roberts, Dafydd R. Thomas.
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr, Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)/Swyddog Monitro, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro, Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor.
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Dim
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd G.O. Jones – Cadeirydd y Cyngor Sir

---

#### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

#### 2. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Derlwyn R. Hughes yn Gadeirydd.

#### 3. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Alun W. Mummery yn Is-Gadeirydd.

**Y CYNGHORYDD G.O. JONES  
FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

*Adroddiad Tîm Diogelu Iechyd ar gyfer Pwyllgor Craffu  
Cyngor Sir Ynys Môn*

*Health Protection Team Report for Isle of Anglesey  
County Council Scrutiny Committee*

Dr Chris Whiteside  
Meddyg Ymgynghorol mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Consultant in Communicable Disease Control  
Public Health Wales

17 Mehefin/ June 2013

# *Pwy ydym ni?*

## *Who are we?*

- Tîm Diogelu Iechyd Gogledd Cymru (HPT)
- Rhan o HPT Cymru gyfan
- Wedi'n lleoli yn Preswylfa, Yr Wyddgrug, swyddfa 9-5
- Tîm yn cynnwys (cyfateb amser llawn)
  - 1.6 CCDCs
  - 2.6 nyrs
  - 1 nyrs imiwneiddio arbenigol
  - 2.0 staff gweinyddol
  - 1 dadansoddwr goruchwyliaeth
- CCDCs yn 'swyddogion priodol' ar gyfer clefydau trosglwyddadwy i'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru
- North Wales Health Protection Team (HPT)
- Part of all-Wales HPT
- Based in Preswylfa, Mold, office 9-5
- Team consists of (WTE)
  - 1.6 CCDCs,
  - 2.6 nurses,
  - 1 specialist immunisation nurse,
  - 2.0 admin staff
  - 1 surveillance analyst
- CCDCs are 'proper officers' for communicable diseases for the 6 North Wales LAs

# *Beth ydym yn ei wneud?*

## *What do we do?*

- Derbyn hysbysiad o glefydau sy'n heintus i bobl er mwyn gweithredu
- Mae hysbysiad yn ofyniad cyfreithiol dan Reoliadau Diogelu Iechyd 2010
- Y nod yw canfod a rheoli tarddiad yr haint, a'i atal rhag lledaenu i bobl eraill
- Enghreifftiau o heintiau yn cynnwys gwenwyn bwyd, y frech goch, y fflw
- Arwain ymatebion i reoli achosion
- Receive notifications of human infectious diseases for action
- Notification is a legal requirement under the Health Protection Regulations 2010
- The aim is to identify and control a source of infection, and to prevent spread to others
- Examples of infections include food poisoning, measles, influenza
- Lead outbreak control responses

# *Beth ydym yn ei wneud? (2)*

## *What do we do?*

- Cyngori a darparu hyfforddiant ar faterion brechu
- Ymateb i ddigwyddiadau a bygythiadau cemegol ac amgylcheddol
- Cymryd rhan mewn cynllunio ar gyfer argyfwng ynghyd ag asiantaethau eraill
- Darparu addysg a hyfforddiant
- Mae CCDCs yn cymryd rhan mewn gwasanaeth ar-alwad 24/7 Cymru Gyfan
- Asiantaethau partner yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd, Meddygon Teulu, microbiolegwyr, gwasanaethau brys, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, cwmnïau dŵr, Cyfoeth Naturiol Cymru (Ebrill 2013)
- Advise and provide training on vaccination issues
- Respond to chemical and environmental incidents and threats
- Participate in emergency planning alongside other agencies
- Provide teaching and training
- CCDCs participate in all-Wales on call service 24/7
- Partner agencies include LAs, Health Board, GPs, microbiologists, emergency services, Public Health England, water companies, Natural Resources Wales (Apr 2013)



# *Hysbysiad – gwenwyn bwyd*

## *Notifications – food poisoning*

	<b>Ynys Môn Anglesey</b>	<b>Gogledd Cymru North Wales</b>	<b>Ynys Môn Anglesey</b>	<b>Gogledd Cymru North Wales</b>
	2012/2013	2012/2013	2011/2012	2011/2012
Cryptosporidiwm Cryptosporidium	15	142	10	98
Campylobacter	133	951	99	855
Escherichia coli	0	6	13	23
Salmonella Salmonela	22	80	7	81

## Hysbysiad– clefydau y gellid brechu i’w hatal Notifications – vaccine preventable diseases

	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales
	2012/2013	2012/2013	2011/2012	2011/2012
Clwy’r Pennau Mumps	16 (2)	147 (33)	10 (1)	137 (25)
Y Frech Goch Measles	10 (0)	147 (38)	9 (1)	112 (32)
Rwbela Rubella	1 (0)	7 (0)	0 (0)	15 (0)
Hepatitis B	1	39	1	37
Hepatitis C	8	91	10	111
Y Pâs Whooping cough	71 (19)	192 (80)	3 (3)	20 (17)

Ffigyrau mewn cromfachau yn cyfeirio at achosion a gadarnhawyd mewn labordai

Figures in brackets are laboratory confirmed cases

## *Hysbysiadau – arall* *Notifications – other*

Tudalen 9

	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales
	2012/2013	2012/2013	2011/2012	2011/2012
Clefyd y lleng filwyr Legionella	3	9	2	8
Llid yr Ymennydd Meningitis	9	32	3	39
Y dwymyn goch Scarlet fever	1	66	3	69
Tiwberciwlosis Tuberculosis	4	24	0	19
Y dwymyn waedlifol firaol – hantavirus Viral haemorrhagic fever – hantavirus	0	1	0	0

# Enghreifftiau Ynys Môn

## Anglesey examples

- Cynllunio argyfwng Wylfa gan gynnwys tabledi iodid ar gyfer yr ardal leol
- Achosion o glefydau
  - er enghraifft, mewn ysgolion: TB, cosi gwyllt, clwy'r pennau
- Safleoedd diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol e.e. Mynydd Parys:
  - cefnogaeth i SIOion
- Cyngor brechu arbenigol ar gyfer Meddygon Teulu
- Wylfa emergency planning including iodine tablets for local area
- Disease outbreaks and incidents
  - for example in schools: TB, scabies, mumps
- Industrial and post-industrial sites e.g. Parys Mountain:
  - support to EHOs
- Vaccination specialist advice for GPs



## *Achosion y Frech Goch Gog. Cymru 2012* *Measles outbreak North Wales 2012*

- Yn Chwefror 2012 cafwyd achosion o'r frech goch yn ardal Porthmadog a Phenrhyn Llŷn.
- Canfod yr achosion cyntaf mewn ysgol uwchradd yn yr ardal, wedyn yn lledaenu i'r gymuned ehangach.
- 56 achos wedi'i gadarnhau ac 8 achos tebygol o'r frech goch yn gysylltiedig â'r cyfnod, a'r rhan fwyaf o'r rhain â hanes o frechiad heb ei gwblhau yn erbyn y clefyd. Ni adroddwyd am unrhyw farwolaeth o ganlyniad i'r achosion.
- In February of 2012 an outbreak of measles occurred around Porthmadog and the Lleyrn Peninsula.
- Cases were first identified in a secondary school in the area, and later spread to members of the wider community.
- 56 confirmed and 8 probable cases of measles were linked to the outbreak, with the majority of these having an incomplete history of vaccination against the disease. No fatalities were reported as part of the outbreak.

## Y frech goch 2012 (2) Measles 2012

- Mesurau rheoli i gyfyngu ar ledaeniad y firws yn cynnwys : rhoi cyngor ar gadw dan waharddiad; brechu yn erbyn y clefyd, a; chyfathrebu parhaus i hysbysu ac addysgu'r cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol.
- Cynnal sesiynau brechu wedi'u targedu mewn ysgolion lleol i gyfyngu ar y posibilrwydd o'r clefyd yn lledaenu ac i ddiogelu'r rhai oedd mewn peryg o gael eu heintio fwyaf.
- Control measures to limit the spread of the measles virus consisted of: providing exclusion advice; vaccination against the disease, and; continued communication to inform and educate the public and health professionals alike.
- Targeted vaccination sessions were held in local schools to limit the potential spread and to protect those most at risk of infection.



Dosbarthiad daearyddol  
o achosion y frech goch yng  
Ngogledd Cymru Ion– Meh 2012

Geographical distribution  
of measles cases in  
North Wales Jan-Jun 2012

- Achos tebygol/  
Probable case
- Achos cadarn  
Confirmed case

Crown copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100044810.

Produced by Public Health Wales

08 June 2012

## *Achosion o'r Frech Goch Abertawe 2013*

### *Measles outbreak Swansea 2013*

- Achosion o'r frech goch mewn plant ysgol uwchradd yn cychwyn yn Abertawe Medi 2012
- Erbyn canol Ebrill 2013
  - Dros 700 wedi cael diagnosis
  - 52 wedi bod yn yr ysbyty
  - > 140 o ysgolion wedi'u heffeithio
- Achosion ym Mawrth 2013 mewn ysgol yng Ngogledd Powys
- Achosion yn debygol yn fuan mewn ysgolion yng Ngogledd Cymru, ac mae'n rhaid i ni fod yn barod amdanynt
- A measles outbreak in secondary school children started in Swansea in Sept 2012
- By mid April 2013
  - Over 700 cases diagnosed
  - 52 hospitalisations
  - > 140 schools affected
- Outbreak March 2013 in North Powys school
- Cases are likely to occur soon in North Wales schools, and we must be prepared for outbreaks



### 2013 – hyd yma

- 81 hysbysiad clinigol
- 5 achos wedi'u cadarnhau mewn labordy

### 2013 - to date

- 81 clinical notifications
  - 5 laboratory confirmed cases
-


# *Achosion o'r Frech Goch 2013*

## *Measles outbreak 2013*

- Beth all Awdurdodau Lleol ac ysgolion wneud?
  - Hybu rhieni i roi brechiad MMR i'w plant
  - Llythyr wedi cael ei anfon at AALI
  - Bod yn ymwybodol o symptomau'r frech goch
  - Sicrhau bod plant sy'n sâl efo'r frech goch yn cael eu cadw adref
  - Cynnal sesiynau brechu mewn ysgolion lle nad oes llawer wedi cael brechiad
  - Sicrhau bod staff wedi'u diogelu rhag y frech goch
- What can LEAs and schools do?
  - Promote MMR uptake with parents
  - Letter has been circulated to LEAs
  - Be aware of symptoms of measles
  - Ensure exclusion of children who are ill with measles
  - Vaccination sessions are being held at schools where uptake is low
  - Ensure that staff are protected against measles

## *Gwaith gwella iechyd Ynys Môn* *Anglesey health improvement work*

- Talebau cyfeirio ymarfer corff ar gyfer merched beichiog trwy ganolfannau hamdden Ynys Môn
- Ymgyrchoedd hysbyseb bws am ysmegu yn ystod beichiogrwydd a gwerthu alcohol trwy ddirprwy
- Prynwyd deunyddiau newydd ar gyfer addysg iechyd ar gyfer pob ysgol gynradd
- Babanod Awyr Iach: rhoi thermomedrau meithrinfa i ferched beichiog a mamau newydd, â rhybuddion ysmegu
- Exercise referral vouchers for pregnant women through Anglesey leisure centres
- Bus advert campaigns on smoking in pregnancy and proxy alcohol sales
- New materials for health education bought for all primary schools
- Clean Air Babies: nursery thermometers given out to pregnant women and new mothers, with smoking warnings



*Lansio  
talebau  
cyfeirio  
ymarfer corff  
ym Mhlas  
Arthur*

20.3.2013

*Launch of  
exercise  
referral  
vouchers at  
Plas Arthur*

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>Pwyllgor: Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod: 17 Mehefin 2013</b>
<b>Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol: Gwen Carrington</b>
<b>Aelod Portffolio Perthnasol: Y Cynghorydd K Hughes</b>

### 1. Cefndir

Dechreuodd y cysyniad o Wasanaeth Arbenigol Plant Amlasiantaethol yng Ngwynedd a Môn yn 2001-03 a daeth yn weithredol ym Môn yn 2004. Ers hynny, mae ystod eang o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod ar gael i blant a phobl ifanc gydag anableddau ynghyd â'u teuluoedd/gofalwyr – a gwnaed llawer o gynnydd o ran gweithrediadau'r tîm a'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Rydym yn cydnabod fod cyfle mawr i ni wella'r gwasanaeth ymhellach drwy integreiddio ymhellach y strategaethau rheoli, prosesau a phobl a gwella'r dulliau o rannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng swyddogion proffesiynol a chyda defnyddwyr y gwasanaeth, ac i fod yn fwy cydlynol ac effeithlon fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwasanaethau o safon uwch ac yn fwy prydlon.

Y cynnig yw integreiddio'r casgliad hwn o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi eu cyd-leoli ar hyn o bryd mewn un gwasanaeth integredig – y Gwasanaeth Arbenigol Plant (GAP). Bydd y GAP yn cyflogi swyddogion proffesiynol yn y meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol dan un strwythur sefydliadol – gan gyflogi Rheolydd Gwasanaeth i redeg a rheoli'r gwasanaeth a bydd ganddo strategaeth integredig, cyfres o bolisïau, gweithdrefnau, cyllidebau a dull cydlynol o reoli a hyfforddi staff.

Mae'r cynnydd yn y cost i rhedeg y Gwasanaeth (wedi gyfrifo i fod yn £7,230 yn 2013-14) yn sylweddoli nifer o fanteision a gwelliannau i'r Gwasanaeth, a amlinellir yn Adran 8 o'r ddogfen hon.

### 2. Nodau

Nod yr integreiddiad – yw darparu gwasanaeth sengl, integredig sy'n darparu gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol er budd plant a phobl ifanc gydag anableddau

(Defnyddwyr Gwasanaeth) a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd y gwasanaeth yn darparu un pwynt mynediad ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Nod y gwasanaeth – yw hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc a chynyddu eu gallu i gymryd rhan mewn bywyd pob dydd, a'u cynorthwyo i gyrraedd eu potensial a gwneud y mwyaf o'u hawliau, sydd o fudd yn y pen draw i'w hiechyd, lles a chynhwysiad cymdeithasol. Bydd y gwasanaeth yn darparu mecanwaith cadarn i gynorthwyo plant a phobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion a bydd yn seiliedig ar fodel gwasanaeth integredig sy'n adlewyrchu swyddogaethau, cyfrifoldebau ac ymrwymiad addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, a'r sector gwirfoddol.

### **3. Cyfrifoldebau Cyfreithiol**

Bydd y GAP yn bartneriaeth ffurfiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) a Chyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor). Dan ddarpariaethau a wnaed dan Adran 33 Deddf GIG (2006) Cymru, bydd y Bwrdd Iechyd yn dirprwyo swyddogaethau gofal iechyd cysylltiedig i'r Cyngor a'r Cyngor fydd y Darparwr Arweiniol ar gyfer y gwasanaeth. Bydd y Cyngor yn darparu, neu'n gwneud trefniadau i ddarparu'r cyfuniad o swyddogaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n rhan o gylch gorchwyl y GAP.

Bydd y naill bartner a'r llall yn cyfrannu tuag at y costau gweinyddol, costau swyddfeydd a chost y swydd Rheolydd Gwasanaeth; byddant yn parhau i fod yn atebol am reoli eu hadnoddau ariannol eu hunain.

Ni all y bartneriaeth fynd yn ei blaen ond gyda chymeradwyaeth gyfreithiol y ddau bartner.

### **4. Yr hyn y gellir ei gyflawni**

Bydd integreiddio'r Gwasanaeth Arbenigol Plant yn cyflawni:

- Bwrdd Comisiynu a Rheoli ar y cyd
- Datganiad strategol ar y cyd ar weledigaeth y Bwrdd
- Gwasanaeth arloesol ar ei newydd wedd sy'n cwrdd ag anghenion yr unigolyn
- Cynllun Busnes blynyddol i gyflawni'r cytundeb partneriaeth
- Diwylliant o gydweithio
- Strwythur rheoli / atebolrwydd sengl
- Swyddfeydd ar gyfer y gwasanaeth
- Trefniadau clir ar gyfer llywodraethu ac arwain
- Ffurflenni a ffeiliau sy'n gyffredin i'r ddau bartner
- Polisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau ar y cyd
- Recriwtio staff ar y cyd
- Hyfforddi a datblygu staff ar y cyd - i sicrhau amrywiaeth briodol o sgiliau ar draws y gwasanaeth cyfan a fedr gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc
- Meini prawf cymhwyster ar y cyd
- Dealltwriaeth ymysg swyddogion proffesiynol o'u swyddogaethau unigol ac o'r hyn y mae pob proffesiwn yn ei gyfrannu i'r cyfan
- Cefnogaeth rhyngbroffesiynol
- Un pwynt mynediad i'r gwasanaeth
- Fframwaith rheoli perfformiad integredig
- Mecanweithiau cadarn ar gyfer cyfranogiad defnyddwyr a gofalwyr mewn penderfyniadau ac wrth gynllunio gwasanaeth

- Cofrestr risg
- Model rheoli matrices sy'n darparu goruchwyliaeth broffesiynol os yw aelod o dîm yn cael ei reoli gan weithiwr o faes arall

## 5. Model Gwasanaeth

Bydd y GAP yn mabwysiadu ymagwedd strategol tair haen o ran cynllunio a darparu gwasanaeth, yn unol â'r tabl a'r diagram isod.

Mae'r ymagwedd hon yn hyrwyddo anghenion plant a phobl ifanc gydag anabledau ar bob lefel, ond gan dargedu adnoddau'r GAP tuag at grŵp penodol.

Haen	Staff	Defnyddiwr Gwasanaeth
<b>Haen 1</b> Gwasanaethau Cyffredinol	Nid oes gan staff rôl arbenigol o angenrheidrwydd o ran cwrdd ag anghenion pobl anabl, ond maent yn cwrdd ag anghenion Defnyddwyr Gwasanaeth a'u teuluoedd fel y byddent yn ei wneud ar gyfer unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n defnyddio eu gwasanaethau.  Mae'n cynnwys: Meddygon Teulu, gofalwyr iechyd sylfaenol, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, athrawon, staff eraill yn yr ysgol, gweithwyr cymdeithasol plant nad ydynt yn arbenigo, gweithiwr sector anstatudol, canolfannau hamdden.  Mae trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnwys Therapi Galwedigaethol o fewn y Gwasanaeth ar y gweill.	Yr holl blant a phobl ifanc anabl sydd angen gwasanaethau cymunedol ac a fedr, gyda chyingor ac arweiniad, gymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleon gyda phlant a phobl ifanc nad oes ganddynt anabled.
<b>Haen 2</b> Gwasanaethau Partneriaeth sydd ddim yn rhai ffurfiol	Staff yw'r llinell gyntaf o wasanaeth arbenigol sy'n darparu gwasanaethau sydd wedi eu targedu ond heb eu cydlynu.  Mae'n cynnwys: seicolegwyr arbenigol, athrawon arbenigol a gweithwyr cymdeithasol plant arbenigol.	Yr holl blant a phobl ifanc anabl sydd angen ymyrraeth tymor byr, neu ymyrraeth barhaus gan un gweithiwr arbenigol.
<b>Haen 3</b> Gwasanaethau Partneriaeth Ffurfiol	Tîm o staff amlddisgyblaethol sy'n darparu gwasanaethau cydlynol trwy un pwynt mynediad, h.y. y GAP.	Yr holl blant a phobl ifanc anabl sydd ag anghenion cymhleth, sydd angen cefnogaeth ddwys mewn maes penodol, sydd angen gwasanaeth rhyngasiantaethol, sydd angen rhaglen

	Mae'n cynnwys: gweithwyr cymdeithasol arbenigol, therapyddion galwedigaeth, nyrsus arbenigol, seicolegwyr arbenigol.	o ymyrraeth a gofal.
--	--	----------------------

### HAEN 1: GWASANAETHAU CYFFREDINOL

#### HAEN 2: GWASANAETHAU PARTNERIAETH SYDD DDIM YN RHAI FFURFIOL

##### ADDYSG

Staff a nodwyd mewn Ysgolion  
Cynorthwywyr Cymorth Dysgu  
Seicolegwyr Addysg  
Ysgolion Argennig  
Athrawon Argenigol

##### BLYNYDDOEDD

CYNNAR  
Cynllun Cyfeirio

#### HAEN 3: GWASANAETHAU PARTNERIAETH FFURFIOL

Rheolwr Gwasanaeth  
Tim Cefnogi Gofal Cymdeithasol  
Gweithwyr Cymdeithasol  
Gweithwyr Cymdeithasol  
Gweithiwr Allweddol Pontion  
Therapi Galwedigaethol Gwasanaethay Cymdeithasol  
Comisiynu ar y Cyd- Lleoliadau  
Seicoleg  
Nyrsys – Anableddau Dysgu ac Anabledd

##### GWASANAETHAU

##### CYMDEITHASOL

Gofalwyr Maeth  
Taliadau Uniongyrchol

##### BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Therapi Galwedigaethol  
Ffisiotherapi  
Podiatreg  
Therapi Iaith a Lleferydd  
Pediatriyddon Cymunedol

## 6. O fewn maes gwaith y GAP

Bydd y Gwasanaeth yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 18 oed a'u teuluoedd, sy'n byw yn Ynys Môn ac sy'n anabl neu a chanddynt oediad datblygiadol sylweddol, lle mae anawsterau tymor hir neu barhaol y mae angen asesiad arbenigol ac/neu ymyrraeth ar eu cyfer, o ganlyniad i:

- Anableddau corfforol sy'n cael effaith sylweddol ar ddatblygiad defnyddiwr gwasanaeth, ar eu gweithgareddau bywyd o ddydd i ddydd, neu sy'n eu rhwystro rhag cyrraedd eu potensial llawn
- Anableddau Dysgu lle mae gallu defnyddwyr gwasanaeth i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth neu i ddysgu sgiliau newydd yn gyfyngedig iawn (hy amhariad ar ddeallusrwydd), ac sydd â llai o allu i ymdopi'n annibynnol (hy amhariad ar weithrediad cymdeithasol) sy'n cael effaith hirhoedlog ar ddatblygiad.
- Salwch, fel y rheiny sydd â salwch cronig neu sydd â chyflyrau difrifol ac/neu barhaus ar hyd eu hoes.



- Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth, lle mae anableddau niwroddabtygiadol gydol oes sy'n ymddangos cyn 36 mis oed ac sy'n cael eu nodweddu gan:
  - Amhariad ar y gallu i gymdeithasu
  - Amhariad ar sgiliau cyfathrebu llafar a sgiliau cyfathrebu eraill
  - Ymddygiad, diddordebau a gweithgareddau sy'n nodweddiadol i'r cyflwr.
- Oedi datblygiadol lle mae oedi cronolegol yn ymddangosiad cerrig milltir datblygiadol arferol a gyrrhaeddir yn ystod babandod a phlentyndod cynnar, a achosir gan ffactorau organig ac/neu seicolegol.

Bydd y gwasanaeth yn cynnig llwybrau pontio integredig rhwng lefelau o angen a chyfnodau trosiannol bywyd. Bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn cefnogi dysgu trwy ddarparu staff medrus sydd wedi eu hyfforddi ac sy'n cael eu goruchwyllo. Bydd y gwasanaeth integredig hefyd yn gwella a chryfhau'r broses o drosglwyddo Defnyddwyr Gwasanaeth o GAP i Wasanaethau Oedolion; mae cryfhau'r trefniadau trosglwyddo hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac i'r Bwrdd Iechyd.

## **7. Y tu allan i faes gwaith GAP**

Nid yw'r Gwasanaeth yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleon gyda phlant nad oes ganddynt anabledd, fel y rheiny:

- Sydd hefo salwch neu gyflwr meddygol ond dim anabledd
- Y llwyddir i gwrdd â'u hanghenion anabledd ar hyn o bryd
- Sydd ag oediad datblygiadol ysgafn mewn dim ond un rhan o'u bywydau yn unig (ee oediad iaith neu doiledu)
- Sydd â phroblemau ymddygiadol, ond lle nad oes unrhyw dystiolaeth o anabledd neu oediad datblygiadol sylweddol
- Sydd â ADHD ond lle nad oes unrhyw dystiolaeth o anabledd neu oediad datblygiadol sylweddol
- Sydd â nam ar eu clyw sydd wedi ei drin yn llwyddiannus
- Lle mae ystyriaethau Diogelu Plant ond nad oes angen asesiad arbenigol ychwanegol ac/neu ymyrraeth
- Sydd ag oediad datblygiadol y mae gwasanaethau prif lif yn cwrdd ag ef.

Nid yw Gwasanaethau ysbyty, Gofal Iechyd Sylfaenol a gwasanaethau a gomisiynir neu a ddarperir ar lefel ranbarthol neu ganolog o fewn maes gwaith y gwasanaeth hwn.

## 8. Manteision

Bydd y GAP yn cyflawni'r manteision isod:

### Defnyddwyr Gwasanaeth

- Cynnydd o x% yn lefel ymgysylltiad dinasyddion (gan gynnwys atborth) i ddylunio a darparu gwasanaeth
- Cynnydd o x% o ran hwylustod mynediad i wasanaethau
- Cynnydd o x% o ran y dewis o wasanaethau sydd ar gael a'u hyblygrwydd
- Cynnydd o x% o ran barn pobl am safon y gwasanaeth
- Cynnydd o x% yn y cyfleoedd ar gyfer pobl fregus
- Gostyngiad o x% o ran bregusder defnyddwyr gwasanaeth a'u risg
- Cynnydd o x% o ran defnydd gwell o arian cyhoeddus
- Gostyngiad o x% yn lefelau biwrocratiaeth

### Cydweithio

- Cynnydd o x% yn lefel y cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor
- Gwelliant o x% o ran darparu gofal integredig ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Gwelliant o x% o ran cydlynu cyfraniadau'r gwasanaethau oherwydd ymyriadau mwy cydlynol sy'n cael eu cynllunio ar y cyd

### Darparu Gwasanaeth

- Gostyngiad o x% mewn dyblygu ymdrech
- Cynnydd o x% yn effeithlonrwydd y gwasanaeth
- Gostyngiad o x% yn yr amser a dreulir mewn trafodaethau rhyngasiantaethol
- Cynnydd o x% yng nghywirdeb asesiadau
- Gostyngiad o x% yn yr amser a gymer i roi sylw i achosion
- Cynnydd o x% o ran arferion caffael sy'n sicrhau gwerth am arian
- Cynnydd o x% o ran y canfyddiad bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y defnyddiwr yn hytrach na'r asiantaeth
- Cynnydd o x% o ran cydlynu ymatebion
- Cynnydd o x% o ran y canfyddiad o ansawdd y trefniadau yn ystod cyfnodau trosiannol
- Cynnydd o x% o ran cost-effeithiolrwydd a defnyddio adnoddau'n effeithlon

### Staff

- Gostyngiad o x% o ran staff yn teimlo wedi'u hynysu
- Cynnydd o x% yn y lefel o rannu gwybodaeth ac arbenigedd broffesiynol rhwng staff

*Sylwer: Bydd y Gwasanaeth yn gwneud gwaith i nodi gwerth 'x' ym mhob un o'r manteision hyn.*

## 9. Goblygiadau Ariannol

Yn unol â'r tablau isod, mae cynnydd bychan o £7,230 yn y gost o redeg y gwasanaeth integredig, bydd integreiddiad yn costio £25,310 i'r Bwrdd Iechyd a bydd yn arbed £18,080 i'r Cyngor.

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi bod yn talu costau gweinyddol / deunydd ysgrifennu ac ati / costau rhedeg y swyddfa a bydd y costau hyn yn cael eu rhannu 50-50 yn dilyn integreiddio'r bartneriaeth. Mae'r partneriaid hefyd wedi cytuno i newid teitl swydd yr Arweinydd Tîm i Reolwr Gwasanaeth, bydd y costau hyn hefyd yn cael eu rhannu 50-50 rhwng y partneriaid.

Ac eithrio'r rhain, bydd costau rhedeg y GAP yn aros fel y maent.

Yr eitem gost gyfredol	Y gost gyfredol i'r Cyngor	Y gost gyfredol i'r Bwrdd Iechyd	Cyfanswm y Gost
Costau Gweinyddol (ee papur ysgrifennu ac ati, costau rhedeg y swyddfa)	£1,500	£0	£1,500
Rôl yr Arweinydd Tîm Gwasanaeth	£41,890	£0	£41,890
Therapydd Galwedigaethol*	I'w drafod	I'w drafod	I'w drafod
<b>Cyfanswm y Costau</b>	<b>£43,390</b>	<b>£0</b>	<b>£43,390</b>

Yr eitem gost arfaethedig	Y gost arfaethedig i'r Cyngor	Y Gost arfaethedig i'r Bwrdd Iechyd	Cyfanswm y Costau
Costau Gweinyddol (ee papur ysgrifennu ac ati, costau rhedeg y swyddfa)	£1000	£1000	£2,000
Rôl yr Arweinydd Tîm Gwasanaeth	£24,310	£24,310	£48,620
Therapydd Galwedigaethol*	I'w drafod	I'w drafod	I'w drafod
<b>Cyfanswm y Costau</b>	<b>£25,310</b>	<b>£25,310</b>	<b>£50,620</b>

Cyngor	Bwrdd Iechyd	Cyfanswm y Gwasanaeth
Arbediad o £18,080	Cost o £23,310	Cost o £7,230

*\*Mae trafodaethay ynghylch y posibilrwydd o gynnwys Therapi Galwedigaethol o fewn y Gwasanaeth ar y gweill.*

## 10. Risgiau a Chamau Lliniaru

Risg	Effaith	Camau Lliniarol
Anallu i recriwtio Rheolwr Gwasanaeth addas	Y gwasanaeth yn rhedeg heb reolwr	Y gwaith recriwtio'n mynd rhagddo a cheisiadau wedi dod i law ar gyfer y swydd
Methu dod o hyd i swyddfa addas ar gyfer y gwasanaeth	Dim adeilad i'r gwasanaeth	Parhau i geisio datrys y broblem drwy edrych ar eiddo'r Cyngor a'r

		Bwrdd Iechyd
Anghytuno ynghylch sut i reoli'r bartneriaeth	Y bartneriaeth yn chwalo	Mae'r Cytundeb Adran 33 yn cynnwys cymalau sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r naill barti a'r llall petai hyn yn digwydd
Ailddiffinio meini prawf cymhwyster ar gyfer y gwasanaeth yn golygu na fydd y gwasanaeth ar gael mwyach i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n dibynnu ar y ddarpariaeth gyfredol	Defnyddwyr gwasanaeth cyfredol yn cael eu gadael heb wasanaeth oherwydd nad ydynt mwyach yn cwrdd â meini prawf cymhwysedd diwygiedig y GAP	Hysbysu'r defnyddwyr gwasanaeth cyfredol am y newidiadau a fydd yn digwydd i'r gwasanaeth yn o fuan a rhoi gwybod iddynt/eu cyfeirio at wasanaethau priodol eraill.
Diffyg prynu i mewn gan staff yn cael effaith ar y gwasanaeth	Cynnydd yn lefel gwrthwynebiad y staff; treulio rhagor o amser ac arian ar recriwtio a'r manteision yn 6 ddim yn cael eu gwireddu	Cynnal gweithdai i staff a chyfarfodydd gyda'r Undebau Llafur. Gosod protocolau gweithredu a rheoli clir. Ymgysylltu gyda'r staff ynghylch yr angen i newid drwy gyfrwng gweithdai a chyfathrebu effeithiol.
System TGCh ddim yn integredig a dibynnu mwy ar systemau papur	Methiant i rannu gwybodaeth rhwng swyddogion proffesiynol / posibilrwydd o golli gwybodaeth sensitif ynghylch cleientiaid	Siarad gyda Phenaethiaid TG yn lechyd a'r Cyngor. Dilyn i fyny'r gwaith a wnaed yn y maes hwn gan lechyd ac AGC Gwynedd, Derwen.
